# Polisi Gorfodi ac Erlyn

Mae Awdurdod Harbwr Conwy yn gyfrifol dan God Diogelwch Morol y Porthladd am orfodi ei reoliadau'n effeithiol. Mae'r rheoliadau'n cael eu mabwysiadu er mwyn cynorthwyo i reoli diogelwch mordwyo yn yr harbwr. Yn y Polisi hwn, mae gorfodaeth yn cynnwys dosbarthu rheoliadau a chanllawiau, sicrhau gwyliadwriaeth effeithiol, ymchwilio i ddigwyddiadau, a lle bo'n briodol, rhoi rhybuddion ac erlyniadau priodol.

Mae ein polisi yn seiliedig ar addysg yn y lle cyntaf ac yn gyffredinol dim ond yn troi at erlyn ar gyfer troseddwyr mynych, am droseddau sy'n dod â risg sylweddol o anaf difrifol neu golli bywyd neu ar gyfer pan fydd defnyddwyr yn bygwth neu'n cam-drin ein haelodau staff. Lle bo'n briodol, a lle mae wedi'i rymuso i wneud hynny, bydd Awdurdod Harbwr Conwy yn erlyn troseddwyr am gyflawni troseddau, gan gynnwys y rhai a nodir yn Neddf Llongau Masnachol 1995 ac mewn rheoliadau ac is-ddeddfau ategol.

I'r perwyl hwn, mae'n bolisi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y bydd Awdurdod Harbwr Conwy yn:

i. Cynnal drwy adolygiadau rheolaidd, fframwaith rheoleiddio effeithiol, sydd wedi'i integreiddio â deddfwriaeth genedlaethol berthnasol ac sy'n cynnwys rheoleiddio lleol yn deillio o asesu risg, neu fel a wneir fel arall yn angenrheidiol;

ii. Sicrhau bod rheoliadau Awdurdod Harbwr Conwy a chanllawiau cysylltiedig yn cael eu dosbarthu yn eang;

iii. Datblygu a chynnal gweithdrefnau gorfodi effeithiol, sy'n cydymffurfio â gofynion a chanllawiau cyfreithiol cenedlaethol perthnasol;

iv. Datblygu a chynnal gweithdrefnau ymchwilio effeithiol i'w defnyddio mewn achos o ddigwyddiad mordwyo, sy'n cefnogi gweithdrefnau gorfodi Awdurdod Harbwr Conwy, ond hefyd yn bodloni gofynion y System Rheoli Diogelwch mordwyo mewn perthynas â nodi a dosbarthu unrhyw 'wersi a ddysgwyd';

v. Sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud ag ymchwiliad i ddigwyddiad, neu y mae'n ofynnol iddynt ddilyn gweithdrefnau gorfodi Awdurdod Harbwr Conwy, yn cael hyfforddiant effeithiol a pherthnasol;

vi. Cynnal trefn effeithiol o ran gwyliadwriaeth a gwirio ar hap, i fonitro cydymffurfiaeth â rheoliadau cenedlaethol a rheoliadau Awdurdod Harbwr Conwy perthnasol a chanfod achosion o'u torri;

vii. Ymateb i achosion o dorri rheoliadau, lle gellir eu cyfiawnhau gan y dystiolaeth ac amgylchiadau eraill, drwy ddefnyddio rhybuddion ffurfiol ac erlyniad cyfreithiol;

viii. Wrth gyflwyno erlyniadau, cadw at y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron a Chodau tystiolaethol cyn belled ag y bo hynny'n briodol;

ix. Rheoli cynnydd gweithgareddau gorfodi, gan gynnwys ymchwiliadau i achosion ac erlyniadau, a chynnal cofnodion priodol.